# Epilepsi12 – Hysbysiad Preifatrwydd

## Beth yw Epilepsi12?

Prosiect cenedlaethol pwysig yw Epilepsi12 sydd yn helpu gwasanaethau epilepsi i fesur a gwella ansawdd gofal i blant a phobl ifanc â mathau o epilepsi. Comisiynwyd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP), fel rhan o'u Rhaglen Archwiliad Clinigol a Deilliannau Cleifion (NCAPOP). Ystyr hyn yw ein bod wedi cael ein dewis i redeg Epilepsi12 ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru.

## Pam fod ysbytai a chlinigau yn cymryd rhan yn Epilepsi12?

Rydym eisiau bod yn well o ran gofalu am blant a phobl ifanc sydd ag epilepsi. Gall ysbytai a chlinigau helpu trwy gasglu gwybodaeth bwysig am y gofal maent yn ddarparu i'w cleifion. Bydd yr RCPCH yn edrych ar y wybodaeth hon ac yn rhoi gwybod i dimau lle maent yn gwneud yn dda a lle mae angen iddynt wella. Bydd yr RCPCH hefyd yn dweud wrth ysbytai a chlinigau sut maent yn gwneud, o gymharu ag eraill sy'n cymryd rhan.

Dylai pob ysbyty a chlinig yng Nghymru a Lloegr sy'n gofalu am blant a phobl ifanc ag epilepsi gymryd rhan yn Epilepsi12.

## Pa wybodaeth mae Epilepsi12 yn gasglu?

Mae Epilepsi12 eisiau darganfod sut mae ysbytai a chlinigau yn penderfynu a oes epilepsi ar blentyn ac os felly, pa ofal a gaiff. Er enghraifft, byddwn yn casglu gwybodaeth am y math o feddyginiaethau mae plant ag epilepsi yn dderbyn, a'r meddygon a'r

Cyhoeddwyd gan yr RCPCH Ionawr 2023
Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

nyrsys sy'n gofalu amdanynt. Gallwch weld rhestr o'r holl wybodaeth mae Epilepsi12 yn gasglu ar ein gwefan: www.rcpch.ac.uk/epilepsy12.

Mae'r **wybodaeth bersonol**, a elwir yn ddata personol, sy'n cael ei gasglu gan Epilepsi12 yn cynnwys enw'r claf, dyddiad geni, rhyw, cod post cartref a rhywbeth o'r enw "rhif GIG". Mae rhifau GIG yn helpu ysbytai a chlinigau i wybod pwy yw cleifion. Mae eich ysbyty neu glinig eisoes yn casglu'r wybodaeth hon, felly nid rhywbeth newydd i Epilepsi12 mohono.

## Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth bersonol?

Mae gwasanaethau epilepsi yn rhoi'r wybodaeth a gesglir amdanoch ar gyfer Epilepsiiy12 ar wefan ddiogel. Dim ond staff sy'n gweithio mewn ysbytai a chlinigau ac sy'n meddu ar y caniatâd cyrchu cywir all fynd at y wefan hon, neu'r sawl sy'n gweithio ar brosiect Epilepsi12 yn yr RCPCH.

Ni fydd yr RCPCH yn anfon eich gwybodaeth bersonol at unrhyw un arall oni fydd ganddynt ganiatâd i wneud hynny. Os bydd angen gwybodaeth Epilepsi2 ar gyfer prosiectau eraill i gymharu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr, bydd arnynt angen caniatâd gan HQIP. I HQIP gymeradwyo'r cais hwn, rhaid i'r prosiect ddangos eu bod yn dilyn y polisïau diogelu data caeth a ddisgrifir yng nghanllawiau HQIP i ymgeiswyr, a rhaid iddynt fod â'r nod o geisio gwella gofal i blant sydd ag epilepsi. Bydd data yn cael ei rannu ar ffurf wedi ei wneud yn ddienw yn unig, sef lle mae gwybodaeth a allai beri adnabod pwy ydych yn cael ei dynnu allan neu ei amnewid (oni fydd gan y sefydliad sy'n gwneud y cais ei sail gyfreithiol ei hun dros ddal data lle gellir adnabod cleifion).

Yr ydym yn dilyn cyfreithiau Diogelu Data y DU wrth storio a defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn ei gadw'n ddiogel. Felly ni fydd


Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

eich data personol yn cael ei rannu gyda gwledydd y tu allan i'r DU neu'r Undeb Ewropeaidd.

Mae canlyniadau archwiliad Epilepsi12 yn cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiadau blynyddol ac yn ein canllawiau i gleifion a rhieni, sydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a thrwy https://data.gov.uk/. Adroddiad pob data ar lefel Ymddiriedolaethau GIG unigol fel na fydd unrhyw wybodaeth allai beri adnabod pwy ydych fyth yn cael ei gyhoeddi.

## Beth os nad wyf eisiau i 'ngwybodaeth gael ei gasglu ar gyfer Epilepsi12?

Os nad ydych eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei gasglu ar gyfer archwiliad Epilepsi12, rhowch wybod i'ch tîm epilepsi pediatrig, ac fe fyddant hwy yn eich cymryd allan o'r cyflwyniad fel na fyddwn yn derbyn y data. Neu gallwch gysylltu'n uniongyrchol a thîm Epilepsi12 ar epilepsy12@rcpch.ac.uk ac fe wnawn yn siŵr y bydd yr hyn sy'n peri eich adnabod yn cael eu tynnu ymaith o'n cronfa ddata.

Yn Lloegr, mae'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio-Allan o Ddata yn caniatáu i gleifion optio allan o gael defnyddio eu gwybodaeth at ddibenion ymchwil neu gynllunio. Nid yw'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio-Allan o Ddata yn tynnu eich gwybodaeth allan o Epilepsi12.

Yn Lloegr, mae'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio-Allan o Ddata (NDO) yn caniatáu i gleifion 13 oed neu hŷn (neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhieni dros gleifion dan 13) optio allan o gael eu gwybodaeth wedi ei ddefnyddio at ddibenion y tu hwnt i'w gofal uniongyrchol. Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi ystyried y cyngor gan Grŵp Cynghori Cyfrinachedd yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, na fydd yr NDO yn cael ei gymhwyso i Epilepsi12.

Cyhoeddwyd gan yr RCPCH Ionawr 2023
Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

Mae hyn oherwydd y byddai cymhwyso'r NDO yn cyflwyno gogwydd i'r data ac yn ei gwneud yn anodd monitro diogelwch ac ansawdd y gofal, ac oherwydd pwysigrwydd casglu'r data er mwyn gwella gofal i gleifion. Nid ar gyfer ymchwil y cesglir data personol gan Epilepsi12; mae'n cael ei brosesu er mwyn gwneud yn siŵr fod gofal epilepsi yn cael ei ddarparu'n ddiogel a bod gwasanaethau iechyd yn ateb safonau cenedlaethol o ran ansawdd gofal.

## Am ba hyd y byddwch yn cadw fy ngwybodaeth bersonol?

Mae'r tîm Epilepsi12 yn yr RCPCH yn gweithredu fel y prosesydd data ar ran y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP), NHS England ac Iechyd a Gofal digidol Cymru, sef y rheolwyr data ar gyfer data Epilepsi12. Bydd yr RCPCH yn dal eich gwybodaeth cyhyd ag y cânt eu comisiynu gan HQIP i gyflwyno archwiliad Epilepsi12. Bydd yr holl ddata yn cael ei ddileu neu ei drosglwyddo'n ôl i HQIP ymhen pythefnos o derfyn ein contract.

## Pam na ofynnodd neb i mi a allent gasglu fy ngwybodaeth bersonol ar gyfer Epilepsi12?

Y rheswm cyfreithiol yw ei fod er budd y cyhoedd i brosiect Epilepsi12 yr RCPCH ddefnyddio eich data personol. Mae gan Epilepsi12 ganiatâd adran 251 i gasglu data lle gellir adnabod cleifion yng Nghymru a Lloegr heb gydsyniad penodol y claf oherwydd ei fod yn gwella gofal epilepsi i blant. I ddod i wybod mwy am ganiatâd adran 251, ewch at wefan <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/application-summaries yr Awdurdod Ymchwil Iechyd.

Caniateir prosesu dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU ar y seiliau cyfreithiol isod:

Cyhoeddwyd gan yr RCPCH Ionawr 2023
Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

- **Erthygl 6 (1) (e) mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd.**
  Cyfiawnheir hyn trwy drefniadau comisiynu sy'n cysylltu'n ôl i NHS England a Llywodraeth Cymru.
- **Erthygl 9 (2) (i) mae prosesu yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus, megis gwarchod rhag bygythiadau traws-ffiniol difrifol i iechyd, neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiadau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-Wladwriaeth sy'n darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data, yn benodol, cyfrinachedd proffesiynol.**
  Cyfiawnheir hyn am mai nod Epilepsi12 yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal a gwella deilliannau i gleifion.

Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r archwiliad ofyn caniatâd gan bawb. Fodd bynnag, yr ydym o ddifrif am eich preifatrwydd, felly rydym yn cynnig dewis i chi optio allan os nad ydych am gymryd rhan. Mae'r adran isod '**Pa hawliau sydd gen i?**' yn esbonio sut y gallwch wneud hyn a mwy am eich hawliau.

## Pa hawliau sydd gen i?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu yr hoffech wneud unrhyw geisiadau o ran hawliau, cysylltwch â'ch uned yn uniongyrchol. O ran y data a gasglwn am Epilepsi12, mae gennych yr hawliau a ganlyn:

- <u>Hawl mynediad:</u> Mae'r data personol a ddaliwn amdanoch yn cael ei ddarparu gan eich uned. Gallwn roi gwybod i chi pa gategorïau o ddata y byddwn yn gasglu, yn dibynnu ar y math o gyflwyniad, ond bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'ch


Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

uned am gopi o'r wybodaeth am mai hwy yw rheolyddion data eich cofnod fel claf.

- Hawl i Ddileu a Hawl i Wrthwynebu: Nid yw'r hawl i ddileu yn gymwys i'r archwiliad hwn am fod eich data yn cael ei brosesu er mwyn gwneud tasg er budd y cyhoedd, sef yn yr achos hwn, sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch mewn gofal iechyd. Fodd bynnag, os ydych am optio allan o rowndiau archwilio yn y dyfodol, rhowch wybod i'ch uned ac fe fyddant hwy yn eich tynnu allan o'r cyflwyniad fel na fyddwn yn derbyn y data. Neu gallwch gysylltu'n uniongyrchol a thîm Epilepsi12 ar epilepsy12@rcpch.ac.uk, ac fe wnawn yn siŵr y bydd yr hyn sy'n peri eich adnabod yn cael eu tynnu ymaith o'n cronfa ddata.
- Hawl i gywiro data anghywir: Dylech anfon unrhyw geisiadau i newid neu gyfoesi eich data personol at eich uned fel y rheolydd data. Os byddwn ni yn derbyn unrhyw geisiadau, byddwn yn eu hanfon ymlaen at yr uned.
- Hawl i gyfyngu: Dylech anfon unrhyw geisiadau am gyfyngu ar brosesu at eich Ymddiriedolaeth, ac fe fyddant hwy'n rhoi gwybod i ni lle bo hynny'n gymwys.

## Â phwy y dylwn i gysylltu os bydd arnaf eisiau mwy o wybodaeth?

Os hoffech fwy o wybodaeth am Epilepsi12, cysylltwch ag epilepsy12@rcpch.ac.uk neu ffoniwch ni ar 020 7092 6168. Gallwch hefyd gysylltu â swyddog diogelu data'r Coleg am ymholiadau ynghylch y modd mae'r coleg yn prosesu data personol: information.governance@rcpch.ac.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon pellach am sut y rhennir eich gwybodaeth at ddibenion yr archwiliad, cysylltwch yn gyntaf â thîm eich ysbyty.

Cyhoeddwyd gan yr RCPCH Ionawr 2023
Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)

HQIP yw'r cyd-reolyddion data gydag NHS England ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru am elfennau Cymru a Lloegr yr archwiliad. Mae modd cysylltu â HQIP hefyd os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am sut y defnyddir eich gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad: data.protection@hqip.org.uk.

Mae gennych hawl hefyd i wneud cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar casework@ico.org.uk, os oes gennych bryderon am y ffordd y mae eich data personol chi/eich plentyn yn cael ei drin.

***Cyfoeswyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Ionawr 2023.***

Cyhoeddwyd gan yr RCPCH Ionawr 2023
Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn yr Alban (SC03829)